

ATODIAD 2:

Rhaglen arfaethedig o weithgareddau i gynorthwyo i fireinio Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol

Er mwyn cefnogi'r uchelgais i gyd-gyflawni a chyd-ddylunio'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig a datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, rydym wedi cynnig datblygu rhaglen o weithgareddau arfaethedig.

Nod y rhaglen arfaethedig o weithgareddau yw lansio'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig ym mis Medi 2020, ac yna'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ym mis Rhagfyr 2020. Er mwyn ffurfio'r gwaith o ddatblygu'r ddwy ddogfen, rydym wedi adnabod cyfres o weithgareddau er mwyn i bartneriaid fod yn rhan o'r broses o ffurfio'r ddwy ddogfen.

- Trefnir dau Seminar Datblygu Rhanbarthol ar y dechrau ac ar y diwedd. Bydd y Seminar cyntaf yn canolbwyntio ar weithio'n rhanbarthol, yr heriau, y risgiau, y cyfleoedd ac enghreifftiau o arfer dda, ynghyd ag adolygu'r sectorau cyfredol ac sydd ar ddod, cryfderau a chyfyngiadau'r isadeiledd, cynnal ffocws cyffredinol ar gyflawni yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yr ail Seminar Datblygu Rhanbarthol yn ddigwyddiad i lansio'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.
- Trefnir cyfres o weithdai rhanbarthol i hwyluso gweithgareddau yn y dyfodol. Mae meddwl am y dyfodol yn ddull systematig, sy'n adnabod materion a heriau hirdymor, ffurfio datblygiadau meysydd polisi yn y dyfodol ac archwilio a modelu goblygiadau ar gyfer polisiau'r dyfodol.

Mae cyfres o bwyntiau cadarnhau a phenderfynu allweddol wedi'i adnabod, a bydd y rhain yn cynnwys cadarnhad gan y Bwrdd Uchelgais, Cynghorau unigol a Llywodraeth Cymru.

Mae rhaglen arfaethedig o weithgareddau wedi'i chynnwys dros y dudalen.



Rhaglen Arfaethedig o Weithgareddau

Rhaglen Waith ddrafft er mwyn Mireinio Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a Datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol

	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
	Datblygu, Profi a Chytuno ar Raglen Fanwl o Ymgysylltu a Gweithgareddau Caffael Contractwyr Allanol									
		Hwyluso Annibynnol o Brosiectau yn Barhaus								
		Cadarnhau dyddiad, presenoldeb Gweinidogol yn y Sesiwn Datblygu Rhanbarthol (arddull OECD) a chadarnhau'r rhestr o wahoddedigion Datblygu Panel Pobl Ifanc Cadarnhau dyddiad ar gyfer Gweithdai Dyfodol ac anfon gwahoddiadau	Seminar Datblygu Rhanbarthol #1: Dechrau							
			Lansio'r Panel Pobl Ifanc							
			Gweithdai Dyfodol Thematig							
					Gweithdy Dyfodol Cyffredinol					
			Parhau i Fireinio'r Weledigaeth							
						Y Cydweledigaeth Ddiwygiedig yn cael ei Hystyried a'i Chadarnhau gan Bartneriaid				
				Parhau i Ddatblygu, Profi a Mireinio'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol						
				Gweithdai Ychwanegol (fel sydd angen)						
								Lansio'r Weledigaeth Ddiwygiedig Gweithgaredd Ymgysylltu â Defnyddwyr / Rhanddeiliaid y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol		
									Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn cael ei Ystyried a'i Gadarnhau gan Bartneriaid	
										Seminar Datblygu Rhanbarthol #2: Lansio'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol

Pwyntiau Cadarnhau ac Adolygu ar y Cyd Allweddol (Bwrdd Uchelgais a LIC)	Bwrdd Uchelgais 20/03/20			Bwrdd Uchelgais 12/06/20	Bwrdd Uchelgais i gymeradwyo'r Weledigaeth Twf ddrafft 31/07/20 / Drafft i'w gymeradwyo gan y Gweinidog ETaGC		Pwyllgorau Cabinet y Gogledd - i'w gadarnhau Cynghorau Llawn - i'w gadarnhau	Bwrdd Uchelgais 02/10/20		Cyflwyno'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol i'r Bwrdd Uchelgais 11/12/20 / Cymeradwyo gan y Gweinidog ETaGC
					Grŵp Gweithredol i adolygu'r Weledigaeth Twf ddrafft 05/07/20					